Ebenezer Joseph Mather 1849–1927

Sefydlydd National Mission to Deep Sea Fishermen

Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd cyflwr gwaith pysgotwyr Môr y Gogledd yn echrydus. Roedd yn ddiwydiant sylweddol gyda miloedd o longau pysgota ar y môr. Problem fawr ar y môr oedd yfed trwm ac alcoholiaeth. Byddai llongau a elwid yn copres o'r Almaen a'r Iseldiroedd yn ymweld â'r fflydoedd pysgota gan werthu alcohol a baco rhad. Roedd cymaint â 350 o bysgotwyr yn marw wrth eu gwaith yn flynyddol a llawer mwy yn cael eu hanafu. Daeth hyn i sylw'r cyhoedd pan lofruddiwyd bachgen ifanc o brentis gan gapten llong. Wrth weld difrifoldeb y sefyllfa penderfynodd un dyn yn arbennig sef E. J. Mather geisio gwella'r sefyllfa.

Ganwyd ef ar 12 Mehefin 1849 yn Stafford. Er iddo gael ei fagu mewn teulu oedd yn Frodyr Plymouth fe drodd ef yn ddiweddarach at yr Eglwys Anglicanaidd. Wedi iddo dderbyn addysg mewn academi breifat aeth i weithio yn y banc yng Nghaerwrangon ac fe'i penodwyd yn frocer yn y Ddinas yn Llundain ym 1869.

Ym 1880 aeth yn ysgrifennydd y Thames Church Mission a weithiai ar ran yr Eglwys Anglicanaidd gyda phobl ar 76 milltir o lannau afon Tafwys. Ym 1881 cafodd wahoddiad gan Samuel Hewett o Yarmouth, perchennog cwmni pysgota'r Short Blue Fleet, i fynd i weld ei weithwyr wrth eu gwaith ar Fôr y Gogledd. Yno gwelodd drosto'i hun gyflwr gwaith y pysgotwyr ac aeth ati yn syth bin i weithredu ar eu rhan. Traddododd ddarlith yn Newcastle ym 1881 ar waith Cristnogol ar y môr ac aeth ati i sefydlu'r Mission to Deep Sea Fishermen, (MDSF) gyda dau fwriad, sef pregethu'r Efengyl iddynt a gwella'r amodau gwaith sâl. Prynodd long 56 tunnell gan Samuel Hewett i ddechrau'r gwaith. Addaswyd y llong ac fe'i galwyd yn *Ensign*. Ei phriod waith oedd cario angenrheidiau meddygol, dŵr a bwyd ffres, dillad sych, llyfrau, Beiblau a thractiau. Hwyliodd am y tro cyntaf o dan lywyddiaeth y Capten Budd o Gorleston

yng Ngorffennaf 1882. Rhoddwyd caniatâd hefyd gan Hewett i ddefnyddio un o'u llongau fel meddygfa ac ysbyty.

Er mwyn ceisio atal pysgotwyr rhag prynu alcohol oddi ar y copres yr oedd yr MDSF yn gwerthu baco ar eu llongau. Bu gwrthwynebiad i hyn ond bu'r arfer yn bwysig i'r gwaith yn yr hir dymor. Golygai yn raddol fod y pysgotwyr wedi peidio â mynd at y copres i brynu baco, lle roedd temtasiwn i brynu alcohol hefyd, gan droi at awyrgylch mwy croesawus llongau'r MDSF. Ym 1887 gwaharddwyd gwerthu gwirodydd ar Fôr y Gogledd a rhoddwyd caniatâd i Mather werthu baco yn ddi-dreth. Erbyn y flwyddyn honno roedd gan y mudiad saith o longau yn weithredol ar y môr. Yn ogystal â chyflwyno'r Efengyl yr oeddent hefyd yn cynorthwyo'r cleifion a'r anafedig. Cludwyd y rhai oedd wedi eu hanafu yn ddifrifol i'r London Hospital ger Marchnad Billingsgate, ond sylweddolodd y meddygon y byddai'n well o lawer pe baent yn cael eu trin yn y fan a'r lle. Gwirfoddolodd Dr Wilfred Grenfell i chwilio am feddygon i gynorthwyo gyda'r gwaith a neilltuwyd llong am gyfnod arbrofol o ddau fis i fod yn ysbyty. Bu'r arbrawf yn llwyddiant ac yn Rhagfyr 1888 penodwyd Grenfell yn feddyg llawnamser ar gyflog o £300.

Yn fuan wedyn ymddiswyddodd Mather ac fe dreuliodd weddill ei oes yn gwneud amrywiol bethau fel ysgrifennu llyfr teithio i Awstralia, sef *The Squatter's Bairn*, a golygu'r cylchgrawn *Church Family Newspaper*. Bu farw ar 23 Rhagfyr 1927 yn Canvey Island, Essex, a daearwyd ei weddillion yn eglwys St Nicholas.